**<u>Darllen yng Nghyfnod Allweddol 2:</u>** Disgwylir i blant ddarllen eu llyfrau bob nos os yn bosibl, fel rhan o'u gwaith cartref parhaus. Weithiau bydd angen cymorth ar eich plentyn i ddarllen. Dyma ychydig o strategaethau allai fod o ddefnydd i chi:

**<u>Reading in Key Stage 2:</u>** Children are expected to read their books as part of their continual ongoing homework. At times, your child will need some support with their reading. Here are some strategies which could be of use:

| | **Strategaeth** | **Strategy** |
|---|---|---|
| | **<u>Cyn darllen</u>** | **<u>Before reading</u>** |
| 1. | Trafod y teitl a'r hyn y mae'n ei awgrymu. | Discuss the title and what it suggests. |
| 2. | Trafod y clawr a'r hyn y mae'n ei awgrymu. | Discuss the cover and what that suggests. |
| 3. | Trafod y darluniau. | Discuss the illustrations. |
| 4. | Trafod y math o lyfr (e.e. ffuglen / ffeithiol ayyb) | Discuss what type of book it is (e.g. fiction / non-fiction / factual etc.) |
| | **<u>Wrth ddarllen</u>** | **<u>Whilst reading</u>** |
| 5. | Hunan gywiro os oes angen. | Self-correct when needed. |
| 6. | Mynd yn ôl i ddechrau'r frawddeg a chychwyn eto | Go back to the beginning of the sentence and start again. |
| 7. | Cip ddarllen ymlaen i ddiwedd y frawddeg i weld a fydd gweddill y frawddeg yn helpu. | Scan ahead to the end of the sentence to see if the rest of the sentence might help. |
| 8. | Seinio'r gair yn seiliedig ar sŵn y llythrennau. | Sound out the word based on the sounds of the letters. |
| 11. | Rhannu'r gair yn ddarnau. | Break the word down into smaller 'chunks'. |
| 12. | Edrych os oes unrhyw luniau all helpu | See if any of the illustrations help. |
| | **<u>Ar ôl darllen</u>** | **<u>After reading</u>** |
| 13. | Nodi'r strategaethau a ddefnyddir, a sawl | Identify strategies used, and how many times |

| | | |
|---|---|---|
| | gwaith y defnyddiwyd bob un | you used each one. |
| 14. | Nodi unrhyw strategaethau fyddai wedi bod yn ddefnyddiol. | Identify any strategies that could have been helpful. |
| 15. | Nodi strategaeth y byddwch yn bendant yn ei defnyddio'r tro nesaf. | Identify a strategy that could be use next time. |

<u>Cwestiynau posibl:</u> Dyma ychydig o gwestiynau y gallwch eu gofyn er mwyn helpu eich plentyn wrth ddarllen. Pwrpas y cwestiynau yw annog dealltwriaeth ac i roi hwb a hyder i'r plentyn wrth ddarllen. Maent hefyd yn annog y plentyn i feddwl yn ddyfnach am beth allai ddigwydd nesaf, neu beth allai fod ar feddwl yr awdur.

<u>Possible questions:</u> Here's a list of possible questions that you could ask your child when reading with them. Their purpose is to help your child's understanding of what he/she is reading, and to boost their confidence while reading.

| | |
|---|---|
| Pa fath o air ydy hwn? (e.g ansoddair / enw / berf ayyb) | *What type of word is this? (e.g adjective / noun / verb etc)* |
| Pwy sy'n siarad yn y rhan yma? | *Which character is speaking in this extract?* |
| Beth mae'r frawddeg / paragraff yn dweud wrthon ni? | *What does this sentence / paragraph tell us?* |
| Pa fath o lyfr ydy hwn? Sut wyt ti'n gwybod? | *What type of book is this? How do you know?* |
| Wyt ti'n gallu crynhoi'r prif bwyntiau? | *Can you summarise the main points?* |
| Beth wyt ti'n meddwl fydd yn digwydd nesaf? | *What do you think will happen next?* |
| Pam wyt ti'n credu bod y cymeriad yn teimlo fel hyn? | *Why do you think the character feels like this?* |
| Beth oedd dy hoff ran / cymeriad / digwyddiad yn y stori? Pam? | *What is your favourite part / event / character in the story? Why?* |
| Byddet ti'n argymell y llyfr wrth ffrind? Pam? | Would you recommend this book to a friend? Why? |
| Noda tri ffaith am y llyfr. | Note three facts about the book. |
| Beth yw dy hoff air yn y llyfr? Pam? | Which is your favourite word in the book? Why? |